



GWYDDONIAETH BLWYDDYN 3-4 Cylch B – Uned 7

Bwydydd Iach

Richard Watkins, GwE
richardwatkins@gwegogledd.cymru
@DrRWatkins

YSTOD

Cyd-ddibyniaeth organeddau

2. yr angen am amrywiaeth o fwydydd ac ymarfer corff er mwyn i fodau dynol gael iechyd da

7. sut mae bodau dynol yn dylanwadu ar yr amgylchedd lleol

Geirfa Allweddol

deiet cytbwys
maeth
ffrwythau/llysiau
starts
cig/pysgod/wyau
cynnyrch llaeth
braster/siwgr
halen (sodiwm)
carbohydrad
fitaminau
tabl
siart bar
echel
cyfateb
graddfa
unedau

Datblygu myfyrio

(Cynllunio - datblygu – wedi eu hintegreiddio yn y gweithgareddau)



FfLIRh – Prif linyddau Rhifedd*

Llinyn:

Datblygu ymresymu rhifyddol

Elfennau:

Adnabod prosesau a chysylltiadau

Cynrychioli a chyfathrebu

Adolygu

Llinyn:

Defnyddio sgiliau data

Elfennau:

Casglu a chofnodi data

Cyflwyno a dadansoddi data

Dehongli canlyniadau

* Cyfeirio at y Fframwaith Rhifedd am fanylion ynghylch y sgiliau penodol sydd o fewn pob elfen

FfLIRh – cyfleoedd Llythrennedd (ysgrifennu)

Elfen: Trefnu syniadau a gwybodaeth
Ysgrifennu'n gywir

Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth, rhoi cyfarwyddiadau a darganfod

Datblygu TG



Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned

Y Cwricwlwm Cymreig



Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned

Addysg bersonol a chymdeithasol



Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned

Gwyddoniaeth – Cynllunio Hanner Tymor o waith

Grŵp Blwyddyn	3/4	Tymor	Cylch B – Uned 7	Teitl yr Uned	Bwydydd Iach
Ystod: Cyd-ddibyniaeth organeddu 2. yr angen am amrywiaeth o fwydydd ac ymarfer corff er mwyn i fodau dynol gael iechyd da 7. sut mae bodau dynol yn dylanwadu ar yr amgylchedd lleol					
Dolenni Trawsgwricwlaidd:					
Sgiliau (Prif sgiliau mewn llythrennau italig bras)	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau	Adnoddau a dolenni i'r we	Cyfleoedd i Asesu		
<p>CYNLLUN Nodi bylchau yn y wybodaeth flaenorol</p> <p><i>Cynllunio'r broses/dull sydd i'w defnyddio</i></p> <p>DATBLYGU Gwneud arsylwadau a mesuriadau gofalus</p> <p>Dechrau gwirio arsylwadau</p> <p><i>Gwneud cymariaethau a nodi a disgrifio patrymau a thuaddiadau mewn data</i></p> <p>MYFYRIO Awgrymu sut gellir gwella ar y dull</p>	<p>1. Cwestiwn Mawr: Sut mae gwyddonwyr yn 'mesur' twf?</p> <p>Cyflwyniad i bwnc a thrafodaeth am yr hyn mae disgyblion yn ei ddeall wrth 'twf'. Dangos clip fideo o gamau yng nghylch bywyd planhigyn/ anifail a neu luniau o gamau mewn cylch bywyd bodau dynol. Disgyblion i gofnodi'r cerrig milltir sgiliau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd o faban – i gerdded – i blentyn bach – i blentyn iau – unigolyn yn ei arddgau – i oedolyn.</p> <p>Cofnodi asesiad diagnostig – map meddwl, grid KWL neu boster syniadau ac ati.</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Cynllunio'r archwiliad. Gweithgaredd 'Mesur dwylo': OAM Uned 1,tud.8</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r dasg a thrafod syniadau. • Creu cofnod cyfateb gan ddefnyddio data dosbarth cyfan. Ceisio osgoi taflenni gwaith parod a rhoi sialens i ddisgyblion greu tablau syml eu hunain. • Trafod y canlyniadau a chreu cynrychiolaeth ar lafar o'r canlyniadau (grwpiau i ddewis y cyflwynwyr). • Grwpiau i greu map meddwl o'r sgiliau a ddefnyddiwyd yn ystod y dasg. <p>Cyflwyno'r sgil – Cynllunio'r archwiliad. Gweithgaredd 'Cynllunio Camau': OAM Uned 1, Tud.13</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio'r gweithgaredd hwn fel sail i greu cynllun archwiliad ar gyfer disgyblion. • Ystyried canolbwynt ar gofnodion grwpiau/ parau. • Amlygu'r hyn sy'n gwneud cynllun archwilio yn 'dda' – dyma fydd meini prawf llwyddiant y disgyblion. • Cofnodi'r meini prawf llwyddiant hyn mewn llyfr nodiadau neu yn llyfrau'r disgyblion. • Mwy galluog: creu graff bar gyda chymorth. <p>Ymarfer y sgil - Cynllunio'r archwiliad. Gweithgaredd 'Archwilio tyfu': SEM Uned 8, tud.10</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafod canlyniadau'r dasg flaenorol - beth ellir ei wella? • Rhoi sialens i'r disgyblion i ofyn cwestiynau y gellir eu profi a'u harchwilio. • A all disgyblion gwblhau eu cynllun syml eu hunain? • Ailadrodd Unedau SI ar fesur a chofnodi'r canfyddiadau mewn tabl. • Cynorthwyo disgyblion i adnabod patrymau a thuaddiadau. • Mwy galluog: creu graff bar gyda chymorth. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/eng/index.html</p> <p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>2006 Deunyddiau Asesu Dewisol</p> <p>Byrddau cynllunio rhyngweithiol (i gynllunio'r dull)</p>	<p>Defnyddiwch strategaeth/ pecyn dewisol</p> <p><i>A all disgyblion gynllunio gydag elfen o annibyniaeth? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion gynhyrchu eu cyfatebiad eu hunan? (Lefel 2)</p> <p>A all disgyblion ddefnyddio fformat tabl gwag ? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion greu siart barau gyda'r echelau wedi eu darparu? (Lefel 3)</p> <p><i>A all disgyblion nodi patrymau syml? (Lefel 3)</i></p>		

<p>CYNLLUN Cynllunio'r broses/dull i'w ddefnyddio</p> <p>DATBLYGU Gwneud cymariaethau a nodi a disgrifio patrymau a thueddiadau mewn data</p> <p><i>Ffurio barnau ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</i></p> <p>MYFYRIO Cysylltu'r dysgu i sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol a thu allan.</p>	<p>2. Cwestiwn Mawr: sut rydym yn creu dyddiadur bwyd?</p> <p>Trafod ein deiet o'i gymharu â bodau dynol hynafol. Beth yw'r gwahaniaeth? Ydyn ni'n bwyta'n iach? Beth ddylem ei fwyta? Dangoswch glip fideo o epaod a/neu fwncïod yn bwyta. Beth yw prif elfennau eu deiet?</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Casgliadau. Gweithgareddau 'Bwyta'n iach a Dewisiadau iach': GCaD CA2 Gwyddoniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio gweithgareddau a thrafod syniadau disgyblion. • Rhoi sialens i ddisgyblion ddod i gasgliadau ar dystiolaeth. Trafod ffaith a barn mewn gwyddoniaeth. • Trafod sut mae pobl yn dehongli pynciau'n wahanol. • Dod â'r disgyblion i gonsensws a helpu disgyblion i wneud penderfyniad gwybodus o ran ffordd o fyw iach. <p>Ymarfer y sgil – Casgliadau. Gweithgaredd 'Dyddiadur bwyd': SEM Uned 8, tud.16</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r gweithgaredd ac annog disgyblion i ddewis eu grwpiau bwyd eu hunain i'w cofnodi yn eu herbyn. • Sut byddant yn cofnodi? Sylw ysgrifenedig neu gyfateb? Pa mor aml? • Disgyblion i greu graff o'r canfyddiadau. • Pa brif gasgliadau gellir eu cael o'u data? • Disgyblion i greu 'cerdyn cofnod' bwyta'n iach ar eu cyfer ei hunain. Oes angen newid eu deiet mewn unrhyw fodd? • Mwy galluog: dewis eu ffordd eu hunain o gyfathrebu syniadau. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>http://www.arkive.org/</p> <p>http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/healthy_lifestyle/eng/index.html</p> <p>2007 Deunyddiau Ymholiad Gwyddonol</p>	<p>A all disgyblion gynllunio gydag elfen o annibyniaeth? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion greu graff bar gyda'r echelau wedi eu darparu? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion ddechrau trefnu eu canfyddiadau, gan gynnwys tablau a siartiau bar syml? (Lefel 3)</p> <p><i>A all disgyblion wneud penderfyniadau drwy bwysu a mesur y dystiolaeth? (Lefel 3)</i></p>
---	---	---	--

<p>CYNLLUNIO <i>Cynllunio'r broses/dull i'w defnyddio</i></p> <p>Rheoli peryglon a risgiau (hylendid)</p> <p>DATBLYGU <i>Gwneud cymariaethau a nodi a disgrifio patrymau a thueddiadau mewn data</i></p> <p><i>Furfio barnau ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</i></p> <p>MYFYRIO Cysylltu'r dysgu i sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol a thu allan.</p>	<p>3. Cwestiwn Mawr: a allwn ni ddarganfod pa greision sydd fwyaf iachus?</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Darganfod tystiolaeth ac ystyried diogelwch. Gofynnwch i ddisgyblion ddod â dau becyn o'u hoff frand a/neu blas o greision. Dywedwch wrth ddisgyblion eu bod wedi cael eu dewis i ymchwilio i'r math mwyaf 'iachus' o greision ar gyfer caffi newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog disgyblion i drafod syniadau ar nodweddion creision 'blasus'. Ystyried rhoi'r nodweddion mewn safle diemwnt. • Gofyn i ddisgyblion ddyfeisio prawf blasu. • Sut byddai disgyblion yn ystyried iechyd a diogelwch? • Sut byddent yn cynnal y prawf? Sut byddent yn mesur a chofnodi'r prawf? Beth yw'r materion hylendid sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn? <p>Ymarfer y sgil – Casgliadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog y disgyblion i roi'r creision mewn trefn yn ôl cynnwys braster/halen gan ddefnyddio diagram Venn. • Ydy'r creision â chynnwys braster uwch yn fwy hallt? Oes ffordd arall gallwn ei defnyddio i roi'r creision mewn grwpiau? • Sut bydd y disgyblion yn cofnodi eu canfyddiadau ar gyfer pob brand? (Tablu) • Sut bydd disgyblion yn dangos eu canfyddiadau? (Graff bar) • A all disgyblion wneud cymariaethau a phenderfyniadau gwybodus? (e-bost, llythyr, poster ac ati) • Mwy galluog: diagram Carroll i geisio trefnu'r creision (cynnwys braster uchel/isel yn erbyn cost uchel/isel). • Trafod y canlyniadau ac adrodd yn ôl i berchennog y caffi drwy lythyr neu neges e-bost. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>Dewis o greision/brandiau Templedi Venn a Carroll mawr</p>	<p><i>A all disgyblion gynllunio gydag elfen o annibyniaeth? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A all disgyblion wneud rhagolygon drwy bwysu a mesur tystiolaeth? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion gysylltu'r dysgu i sefyllfaoedd tebyg? (Lefel 3)</p>
<p>CYNLLUN Nodi bylchau yn y wybodaeth flaenorol</p> <p><i>Gwneud rhagolygon gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol</i></p> <p>DATBLYGU Rheoli peryglon a risgiau (hylendid)</p> <p>MYFYRIO <i>Awgrymu sut gellir gwella ar y dull</i></p>	<p>4. Cwestiwn Mawr: Ydych chi'n gwybod pa fwydydd sy'n hallt?</p> <p>Trafod enghreifftiau blaenorol o weithgareddau prawf blasu yn yr ysgol. O'r cof, a all disgyblion restru bwydydd hallt a bwydydd nad ydynt yn hallt?</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Rhagweld. Gweithgaredd 'Halen yn fy mwyd': SEM Uned 8, tud.22</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried rhoi prawf blasu i ddisgyblion gan roi darnau bach o fwydydd â chynnwys uchel ac isel o halen, e.e. bara, ffa pob, ffrwythau, pítsa, cig wedi ei brosesu ac ati • Rhoi her i ddisgyblion ragweld bwydydd â chynnwys halen uchel – cofnodi rhagolygon. • Sut bydd disgyblion yn sgorio/graddio eu prawf blasu? • Casglu canfyddiadau prawf blasu. <p>Ymarfer y sgil – Awgrymu gwelliannau i ddull. SEM Uned 8, tud.23</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r prawf blasu. Sut gellir ei wella? • Gofyn i ddisgyblion sut byddent yn canfod faint o halen sydd mewn bwydydd gwahanol. • Adolygu'r cynnwys halen a thablu'r canfyddiadau. Ystyried cynhyrchu siart bar o'r canfyddiadau. • A all disgyblion greu taflen fechan ar gyfer rhieni i'w rhoi ym mlwch brechdanau disgyblion (yn esbonio pa fwydydd sydd yn uchel mewn halen). • Rhannu enghreifftiau o dafleuni cysylltiedig iechyd. Trafodwch feini prawf llwyddiant syml ar gyfer taflen disgyblion. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>2007 Deunyddiau Ymholiad Gwyddonol</p>	<p><i>A all disgyblion ddefnyddio syniadau pob dydd i wneud rhagolygon? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A all disgyblion awgrymu sut gellir gwella ar y dull? (Lefel 3)</i></p>

<p>CYNLLUNIO Awgrymu sut i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol a syniadau.</p> <p>DATBLYGU Gallu dod o hyd i wybodaeth berthnasol</p> <p><i>Gwneud cymariaethau a nodi a disgrifio patrymau a thuaddiadau mewn data</i></p> <p>Gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barnau yng ngwyddoniaeth.</p> <p>MYFYRIO Cysylltu'r dysgu i sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol a thu allan.</p>	<p>5. Cwestiwn Mawr: Beth yw 5 y dydd?</p> <p>Cyflwyno amrywiaeth o ffrwythau a llysiau a thrafod eu ffynonellau. Cofnodi syniadau disgyblion.</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Adolygu canfyddiadau. Gweithgareddau salad ffrwythau pell i ffwrdd: Gwyddoniaeth CA2 GCaD</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafod agweddau o ddeietau iachus yng nghyd-destun y ffrwythau a ddangoswyd. Gofyn i ddisgyblion godi cwestiynau sy'n gysylltiedig â ffrwythau? Defnyddio enghreifftiau os oes angen. Trafodwch/esboniwch y cysyniad o 'filltiroedd awyr'. <p>Ymarfer y sgil – Adolygu canfyddiadau. Gweithgaredd 'gwneud salad ffrwyth: GCaD CA2 Gwyddoniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio gwybodaeth am filltiroedd awyr i rannu ffrwythau yn ôl y pellter a deithiwyd i'r DU. Gofyn i ddisgyblion nodi'r ffrwythau hynny sydd â milltiroedd awyr uchel. A all disgyblion rannu bwyd yn ôl milltiroedd awyr? Sut bydd disgyblion yn cofnodi eu canfyddiadau? Mwy galluog: dewis eu dull eu hunain i gofnodi canfyddiadau. Creu eu siart bar eu hunain. <p>Ymarfer y sgil – Adolygu canfyddiadau. Erthyglau bwyta'n iach: safle Newsround BBC</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofynnwch i ddisgyblion ddefnyddio gwefan Newsround i chwilio am atebion i'w cwestiynau (mae nifer o erthyglau gwych sy'n gysylltiedig ag iechyd, ffordd o fyw a deiet ac ati) Chwilio gan ddefnyddio blwch chwilio porwr y BBC e.e. <i>'Newsround healthy eating'</i>. A all disgyblion ddod o hyd i wybodaeth am 5 y dydd? Pa erthyglau diddorol eraill all disgyblion ddod o hyd iddynt? Ystyried rhoi 5 erthygl fer oddi ar y wefan i ddisgyblion eu dosbarthu yn ôl ffaith a barn. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio Math testun: nodiadau/sgript</p>	<p>Amrywiaeth o wefannau a llyfrau ac ati</p> <p>http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ngfi/2007-08/esdgc/far_away_fruit_salad/index.html</p> <p>http://www.bbc.co.uk/newsround/</p>	<p>A all disgyblion awgrymu ble i ddod o hyd i dystiolaeth, gwybodaeth a syniadau? (Lefel 3)</p> <p><i>A all disgyblion nodi patrymau syml? (Lefel 3)</i></p>
<p>CYFATHREBU <i>Defnyddio geirfa wyddonol berthnasol</i></p> <p>DATBLYGU <i>Gwybod am beryglon a risgiau</i></p> <p>MYFYRIO Cysylltu'r dysgu i sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol a thu allan.</p>	<p>6. Cwestiwn Mawr: A allwch chi gynllunio pryd iachus?</p> <p>Cyflwynwch amrywiaeth o ffrwythau a llysiau a thrafodwch eu ffynonellau. Cofnodwch syniadau disgyblion.</p> <p>Cyflwyno'r sgil - defnyddio geirfa wyddonol berthnasol</p> <p>Trafodwch agweddau deietau iachus yng nghyd-destun y ffrwythau a ddangoswyd. Gofyn i ddisgyblion ailadrodd eu gwaith dyddiadur bwyd cynharach ac asesu pa mor iachus yw eu prydau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno /adolygu grŵp bwydydd allweddol: (1) ffrwythau a llysiau; (2) bwydydd â starts; (3) cig, pysgod, wyau a ffa; (4) cynnyrch llaeth a (5) braster a siwgr. <p>Ymarfer y sgil - defnyddio geirfa wyddonol berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio gwybodaeth i gynhyrchu taflen/poster/llythyr er mwyn dosbarthu eu gwybodaeth am grwpiau bwyd. A all disgyblion gynllunio pryd bwyd cytbwys a/neu gynllun pryd wythnosol. Ystyried gofyn i ddisgyblion gyfnewid cogydd/cogyddes yr ysgol neu baratoi byrbryd/brechdan iachus. Trafodwch ddiogelwch a hylendid bwyd. Ystyriwch roi sialens i ddisgyblion i gyfansoddi darn o farddoniaeth i gyfleu eu syniadau. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio Math testun: cerdd</p>	<p>Amrywiaeth o wefannau a llyfrau ac ati</p> <p>Offer cegin ac amrywiaeth o gynhwysion a ddewiswyd</p> <p>http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ngfi/2007-08/esdgc/far_away_fruit_salad/index.html</p> <p>http://www.nhs.uk/Livewell/GoodFood/Pages/Healthyeating.aspx</p> <p>http://www.bbc.co.uk/newsround/</p>	<p><i>A all disgyblion ddefnyddio offer yn gywir ac yn ddiogel? (Lefel 3)</i></p>

<p>CYNLLUNIO <i>Dewis meini prawf llwyddiant</i></p> <p><i>Gosod a rheoli prawf teg, rheoli newidynnau</i></p> <p>DATBLYGU Defnyddio cyfarpar ac offer yn ddiogel</p> <p>Gwneud arsylwadau a mesuriadau gofalus</p> <p>MYFYRIO Dechrau gwerthuso canlyniadau yn erbyn meini prawf llwyddiant</p>	<p>7. Cwestiwn Mawr: sut gallwch brofi orennau?</p> <p>Cyflwyno'r sgil - cynllunio archwiliad gweithgaredd 'orennau': Ein pwnc OAM 2, tud.11 Gofynnwch i ddisgyblion restru archwiliadau posibl y gallant archwilio iddynt. Ystyriwch gynnwys cartŵn cysyniadau o syniadau disgyblion fel sbardun.</p> <p>Dangoswch daflen cynllunio 'dda' ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Helpwch ddisgyblion i nodi nodweddion allweddol (meini prawf llwyddiant). Ailadrodd offer mesur, unedau SI a graddfeydd.</p> <p>Ymarfer y sgil - cynllunio archwiliad. A yw orennau mwy eu maint yn fwy suddog? Rhowch sialens i ddisgyblion feddwl am beth sy'n pennu faint o sudd sydd mewn oren. Gofynnwyd i'r disgyblion archwilio hyn ar ran cwmni cadwyn o archfarchnadoedd. Maint? Cost? Ffynhonnell?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgyblion i drefnu syniadau a chyfiawnhau eu rhesymau. • Caniatáu i'r grwpiau benderfynu beth i'w archwilio – faint o sudd gogyfer â maint, cost neu ffynhonnell yr oren. • Trafod gyda'r disgyblion sut i gynllunio a chynnal archwiliad drwy ddewis offer priodol. • Disgyblion mwy galluog: gosod meini prawf llwyddiant syml a dewis offer eu hunain. • Casglu data a helpu disgyblion i greu siart bar. Dangos enghreifftiau o siart bar 'da'. • Cyflwyno eu canfyddiadau i berchennog yr archfarchnad. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>2005 Llyfryn asesu 'Ein Deunyddiau Asesu Dewisol (OAM)'</p> <p>orennau offer gwasgu silindrau mesur o wahanol faint</p> <p>Templedi cynllunio rhyngweithiol</p>	<p><i>A all disgyblion gytuno ar rai meini prawf llwyddiant sylfaenol? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A all disgyblion gynllunio gydag elfen o annibyniaeth a hefyd deall y cysyniad o degwch? (Lefel 3)</i></p>
---	--	--	---

<p>MYFYRIO <i>Disgrifio sut maent wedi dysgu, a nodi'r ffyrdd weithiodd orau.</i></p> <p>Cysylltu'r dysgu i sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol a thu allan.</p> <p>Gwerthusiad</p>	<p>Edrychwch eto ar yr asesiad diagnostig cychwynnol. A all disgyblion arddangos dealltwriaeth ar ddiwedd pwnc a thrafod y sgiliau newydd a ddysgwyd a/neu a ymarferwyd?</p>	<p>Defnyddio ei hoff strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu</p>	<p><i>A all disgyblion ddweud beth sydd wedi gweithio a beth nad oedd yn gweithio? (Lefel 3)</i></p>
--	--	---	--